PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 393 | TACHWEDD 2016

Awdures brysur

t.7





Bwlch Nantyrarian

t.6

Brain duon y Borth

t.17



## Diolch



Hoffai Rhys Evans, Fferm Fronfraith, ddiolch i bawb wnaeth ei noddi yn ddiweddar ar ôl iddo redeg hanner marathon Caerdydd.

Cododd Rhys y swm o £615.00. Aeth £165.00 i ymchwil Cancer uk a cafodd siec o £450.00 ei chyflwyno i Junior Sister Tanya Taylor o Ward Meurig, Ysbyty Bron-glais. Diolch yn fawr i chi gyd.

## Priodas hapus



Llongyfarchaidau i Cara a Mark Williams a briodwyd yn Horeb ar Hydref 1af. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.



## Dathlu 40

Merched Y Wawr Penrhyn-coch yn dathlu 40 mlynedd y gangen yng Ngwesty'r Marine ar Dachwedd 10fed. Y gwestai arbennig oedd Sandra Morris Jones, Llywydd Cenedlaethol; Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol ac Elizabeth Evans, swyddog y Rhanbarth.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Rhagfyr**
Deunydd i law: Rhagfyr 2 Dyddiad cyhoeddi: : Rhagfyr 14

**TACHWEDD 16** Nos Fercher Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri "Hedd Wyn a'r Ysgwrn" Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**TACHWEDD 17** Nos Iau Goleuadau coeden Nadolig yr Exchange Stores, Capel Bangor, yn cael eu troi ymlaen – mins peis, gwin twym ac adloniant. Croeso i bawb – o 5.00 ymlaen.

**TACHWEDD 18** Dydd Gwener Diwrnod Plant Mewn Angen

**TACHWEDD 18** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00

**TACHWEDD 18** Nos Wener 'Noson o Bictiwrs', yng nghwmni Wynne Mel, Canolfan y Morlan, Aberystwyth. Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30.

**TACHWEDD 18** Nos Wener Gwilym Bowen Rhys yn Sesiwn nos Wener yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont rhwng 8.00 a 10.00 Pris mynediad: £6

**TACHWEDD 23** Nos Fercher Cyfarfod Blynyddol Ffrindiau Cartref Tregerddan yn y cartref am 7.00

**TACHWEDD 25 - 26** Nosweithiau Gwener – Sadwrn Bara Caws yn cyflwyno 'Raslas bach a MAWR' gan Wynford Ellis Owen a Mici Plwm yng Nghanolfan y Celfyddydau am 13.00 a 18.30

**RHAGFYR 2** Nos Wener Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn yn cyflwyno Carol a Channwyll: noson Nadoligaidd i gefnogi Llyfrau Llafar Cymru o 6.00 ymlaen –gweler hysbyseb ar t.

**RHAGFYR 2** Nos Wener Noson Goffi a Raffl Fawr; adloniant gan Côr y Gen yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**RHAGFYR 3-11** Dydd Sadwrn – Dydd Sul Gŵyl Coed Nadolig yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch. Thema: Cân Nadolig

**RHAGFYR 4** Nos Sul Cyngerdd o garolau yng Nhapel Bethel, Aberystwyth, gyda Parti Merched Tregaron a'r cylch. Llywydd: Mrs Nan Howells. Organydd: Mr J. Aeron Williams, L.L.C.M. am 7.30. Trefnir gan Gymdeithas Flodeuol y Cambrian. Mynediad trwy docyn: £4 Cyfraniad tuag at anrhegion i ward y plant Ysbyty Bron-glais yn ystod y Nadolig.

**RHAGFYR 8** Cyngerdd Cylch Meithrin Trefeurig yn Eglwys St Ioan am 11.00 bydd te/coffi yn Neuadd yr Eglwys am 10yb.

**RHAGFYR 10** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion ym Morlan, Aberystwyth. O 11 y bore i 1 o'r gloch. Agorir gan Eurig Salisbury.

**RHAGFYR 11** Nos Sul Cyngerdd Naw Llith a Charolau gyda Chôr ABC yn Eglwys Padarn, Llanbadarn Fawr am 7.30. Mwy o fanylion ar wefan y côr: corabc.cymru

**RHAGFYR 15** Nos Iau Plygain traddodiadol yn Eglwys St Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn (26ain plygain y Gymdeithas) i gychwyn am 7.00

**RHAGFYR 16** Nos Wener 'Dathlu'r Nadolig'. Cymdeithas Lenyddol y Garn, yn y festri am 7.30.

**RHAGFYR 18** Pnawn Sul Marchnad Nadolig wedi ei threfnu gan PATRASA yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch o 3.00 tan 7.00. Dros 20 o stondinau amrywiol gyda Siôn Corn yn ymweld rhwng 4.00 a 6.00.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Hydref 2016

**£25** (Rhif 142) Yr Athro Harold Carter, Tyle Bach, Maes-y-garn, Bow Street.
**£15** (Rhif 71) Megan Evans, Deilyn, Cefn-llwyd, Capel Dewi.
**£10** (Rhif 157) Gordon Jones, Y Wern, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre **pnawn Mercher Hydref 19**

Mae bron yn amser ailymaelodi gyda'r Cyfeillion ond mae yn siomedig gennyf eich hysbysbu efallai fydd y gwobrau yn lleihau gan fod yr aelodaeth yn lleihau. Mae'r swm mae y Cyfeillion yn gynhyrchu yn bwysig iawn i goffrau Y Tincer felly os ydych eisiau cefnogi cysylltwch gyda Bethan Bebb er mwyn cael ffurflen ymaelodi.

## 30 MLYNEDD YN OL



Criw o Ysgol y Borth wedi iddynt fod yng Nghartref Tregerddan yn cyflwyno rhan o'u gwasanaeth diolchgarwch i'r preswylwyr.
Llun: Hugh Jones. (O'r *Tincer* Tachwedd 1986)

## Clwb Ieuenctid Cristnogol

**rhan o fenter gydenwadol eglwysi Gogledd Ceredigion**

**17 Tachwedd** 6.00-7.00 bl. 4/5/6;
7.00-8.00 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**1 Rhagfyr** 6.00-7.00 bl. 4/5/6;
7.00-8.00 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**Llun 19 Rhagfyr** 6.00-7.00 bl. 4/5/6;
7.00-8.00 bl. 7 ac i fyny
Neuadd Rhydypennau
gyda Zoe Jones a Derfel Reynolds

**Cyswllt**:
ZoeGlynneJones34@gmail.com
01970-611516 neu 07584411524
fb Menter Gobaith
Y Parchedig Wyn Rhys Morris
berwynfa@btinternet.com

Croeso i bawb o flwyddyn 4 i fyny.

## Sul y Cofio



Brownies Penrhyn-coch ar ôl gosod torch ar y gofeb fore Sul y Cofio.

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn – misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis

£4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Suliau

**Capel Pen-llwyn**

*Tachwedd*

20 5.00 – Dyffryn Elwyn Pryse
27 10.00 John Tudno Williams

*Rhagfyr*

4 10.00 Bugail
11 Oedfa'r ofalaeth
18 10.00 Elwyn Pryse
25 Oedfa'r Nadolig

### Cangen Melindwr Merched y Wawr

Cyfarfu y gangen nos Fawrth yr ail o Dachwedd yn Neuadd Pen-llwyn am 7.30. Croesawyd 18 o aelodau gan Angharad Jones, ein Llywydd. Darllenwyd cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf ac yna cyhoeddwyd gohebiaeth digwyddiadau y mudiad. Cafwyd gwirfoddolwyr i wneud tri thîm i gystadlu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol sydd yn cael ei gynnal fel arfer yn Nhyglyn nos Wener 11fed Tachwedd. Yna tynnwyd sylw at y Nadolig gyda chardiau arbennig i'w brynu a bwydlen i ddewis ohoni.

Croesawyd ein gwraig wadd, Jane Legget, sydd yn gwirfoddoli gyda'r Groes Goch ac yn byw yn ein plith yn Dolau. Ei gwaith hi oedd i dynnu sylw at beth yn union fydde ni yn medru wneud i roi cymorth cyntaf i berson sydd yn cael ei daro'n wael. Gyda'i ffordd hawdd o hyfforddi cafodd hi ni i deimlo llawer mwy hyderus i wneud yr hyn sydd ei angen mewn argyfwng. Dangosodd sut i ddefnyddio Deffibriliwr Allanol Awtomataidd sydd ar gael yn ein pentrefi erbyn hyn.

Heblaw ymateb i berson sydd yn diodde trawiad y galon rhoddwyd braslun o wahanol sgiliau allweddol welwyd yn y " Llyfr Gwaith Cymorth Cyntaf Bob Dydd ",gyda pawb yn cael copi i fynd adref.

Diolchwyd i Jane gan ein Llywydd a gorffenwyd y noson yn mwynhau lluniaeth. Eirwen Sedgewick lwyddodd i ennill y raffl. Edrychwn ymlaen i ddathlu cinio Nadolig yng nghwmni Mrs Sandra Morris Jones, Llywydd Cenedlaethol y Mudiad, ym Mhlas Antaron nos Fawrth 6ed Rhagfyr am 7 yh.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad i'r rhai a gollodd berthnasau yn ddiweddar, sef Mrs June Jones, Dolypandy, ar golli ei thad; Mrs Eirwen Sedjwick, Rheidol House, ar golli chwaer yng nghyfraith; Mr Arwyn Pugh, Delfryn, ar golli modryb a Dewi a Nicole Gwynne a'r teulu, Tanffordd Uchaf ac Alun Gwynne a'r teulu, Melindwr, ar farwolaeth sydyn eu brawd – Eifion Gwynne.

### Gwasanaethau Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor

*Rhagfyr*

18 Nos Sul Gwasanaeth Carolau am 6.00
24 Noswyl Nadolig Cymun Bendigaid am 11.30
25 Dydd Sul Cymun Bendigaid am 9.30

### Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yr Eglwys nos Fercher, 5 Hydref yng ngofal Y Parchedigion Heather Evans a Lyn Lewis Dafis. Y pregethwraig wadd oedd Y Parchedig M LeGrice, Llanafan a›r organydd oedd Mr Maldwyn James. Braf oedd gweld cynifer dda o bobl yn y gwasanaeth. Mi addurnwyd yr Eglwys yn hyfryd gan yr aelodau. Cyfanswm y casgliad oedd £80 ac mi roddwyd cyfraniad a thiniau bwyd tuag at Banc Bwyd y Jubilee. I ddilyn cafwyd lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys a chyfle i gymdeithasu ymysg ein gilydd.

### Cyfres Busnesau y Pentref

Yr amcan yw cofnodi busnesau y pentref a rhoi ychydig o'u cefndir, ac yn wir mae nifer ohonynt. Y mis diwethaf, soniwyd am y siop leol, ond y mis hwn tro J.J. Lewis, Bronllys ydyw, Saer coed ac Adeiladydd.

Mynychodd Jonathan yr ysgol leol, ac yna ymlaen i Penweddig. Wedi gadael yr ysgol, cafodd waith mewn Swyddfa Cyfrifydd. Ond rywsut nid dyn i fod rhwng pedair wal oedd Jonathan, felly gwnaeth gwrs yng Ngholeg Addysg Bellach yn Llanbadarn. Wedi hyn cafodd y cyfle i ymuno â Chwmni adeiladu "Dyfed Homes" ac yno y bu am beth amser. Mae yn dra diolchgar i'r Cwmni am yr amser hwn i ymarfer yr hyn oedd wedi ei ddysgu, a datblygu ei sgiliau, ac o dipyn i beth dechreuodd ar ei fusnes ei hun.

Mae y fusnes wedi mynd o nerth i nerth, ac yn wir yn dal felly.Weithiau does dim digon o oriau mewn dydd i gwblhau holl ofynion ei gwsmeriaid. "Plesio pawb" yw moto Jonathan.

Rhaid fod ei waith o safon uchel, canys yn ddiamheuol mae gair da bob amser yn lledaenu. Yn wir dim ond canmoliaeth sydd i'w waith, fel saer ac adeiladydd..

Mae Jonathan yn briod i Angharad, a chanddynt dri o blant, Morgan Jac, Iestyn Dafydd ac Ela Jên. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu, a boed i fusnes J.J Lewis barhau am flynyddoedd lawer, tan fyddi Jonathan, yn teilyngu dy bensiwn!!!

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Llenni a Patrick Penffrwd ar eu dyweddiad yn ystod y mis diwethaf.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Dick Davies a'r teulu, Troedrhiwceir, ar golli cyfnither yn ddiweddar.



# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
2.00
*Tachwedd*
20 Bugail
27 Rhidian Griffiths

*Rhagfyr*
4 Roger Ellis Humphreys
11 Oedfa'r Ofalaeth
18 Bugail

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Angharad Rowlands, Cwm Main, ar ddathlu pen blwydd yn 30 oed ar y 3ydd o Dachwedd.

**Pen blwyddi**
Pen blwydd hapus i Mrs. Elizabeth Morgan, Plas y Bryniau, Cefn-llwyd ar ddathlu ei phen blwydd yn 70 ddiwedd Hydref.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Ar nos Fawrth, 25 o Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Madog. Croesawodd y gweinidog, y Parchg Wyn Morris, y pregethwr gwadd, y Parchg Carwyn Arthur o Dregaron, yn gynnes iawn, a chawsom neges amserol. Ymunodd rhai o gyfeillion yr ardal gyda ni. Addurnwyd y capel yn hardd a'r organydd oedd Angharad Rowlands. Gwnaed casgliad tuag at elusen y gwahanglwyf.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu Fferm y Fronfraith ar golli Mrs Bet Pugh;

Eirian ac Arthur Hughes, Lluest Fach, ar golli Mr John Leeding o Daliesin;

Erwyd Howells, Tŷ Capel Madog, ar golli Hilda Griffiths o Landre.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 18 Hydref, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gydag Eirian Reynolds yn y gadair. Roedd pawb o'r cynghorwyr yno ond am dri. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jeff Pyne, Trefor Davies a Tegwyn Lewis; roedd y Clerc hefyd yn bresennol. Cydymdeimlwyd â Dai Rees Morgan ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

Materion yn codi:
Maes Seilo - roedd y Cyngor Sir wedi rhoi rhybudd i un o'r trigolion eu bod am gael y tir a rentid ganddo yn ôl. Nid oedd hyn wedi bod yn fwriad gan y Cyngor Cymuned o gwbl wrth holi am gael gweddill y tir yn faes parcio; cynigiodd y Cynghorydd Sir gael gair gyda swyddogion Ceredigion.
Cerbydau ger Ardwyn, Pen-bont - roedd y Cyngor Sir am wahodd y perchnogion i wneud cais cynllunio.
Tan-rallt, Pen-bont - nid oedd y Clerc wedi derbyn copi o'r affidafid hyd yma; hefyd roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau nad oes llwybr troed swyddogol o'r ffordd fawr heibio ochr y tir i fyny at y goedwig, ond fe ellid gwneud cais i gael un.
Llwybr drwy'r pentref - adroddodd Dai Mason fod bwriad gan y Cyngor Sir i gyfyngu ymhellach ar gyflymder traffig drwy'r pentref.
Darn o dir ger 1 Glanceulan - wedi cael gwybod nad oedd y tir hwn wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor Sir.

Y datblygiad newydd yng Ngogerddan: roedd yr aelodau wedi cael cyfle i weld a chlywed y cyflwyniad am y datblygiad newydd hwn cyn y cyfarfod. Yn naturiol, roedd croeso i'r datblygiad. Prif bryder y cyngor oedd y sefyllfa o ran traffig yn y cyfnod adeiladu, gan fod y ddwy ffordd sy'n arwain at y safle o ffordd Bow Street - Gelli Angharad yn gul. Felly penderfynwyd y dylid pwyso ar y Cyngor Sir i fynnu fod gwella'r ffyrdd yn rhan o'r caniatâd cynllunio ar gyfer y safle. Hefyd fe wnaed y sylw na ddylai'r datblygwyr ddweud fod y ffordd fawr yn croesi Campws Gogerddan, yn hytrach y campws oedd wedi ei godi o boptu'r ffordd fawr. Gwahaniaeth bach hwyrach, ond un pwysig o ran canfyddiad.

Materion ariannol - roedd yr archwiliad terfynol wedi'i dderbyn gan Grant Thornton. Dim ond dau bwynt bach a nodwyd ganddynt: roedd angen mabwysiadu cyllideb ffurfiol ar ddechrau blwyddyn ariannol, yn hytrach na phenderfynu cadw at batrwm y flwyddyn flaenorol; hefyd, roedd angen pasio cynnig penodol wrth benodi'r archwiliwr lleol.

Cynllunio: cais A160906, cais i godi eisteddle i 75 o bobl, ynghyd â bloc o doiledau ar dir y cae pêl droed - dim gwrthwynebiad. (Fe wnaeth Mel Evans ddatgan budd cyn y drafodaeth hon.)

Cynhadledd genedlaethol Un Llais Cymru - roedd y Cadeirydd, Eirian Reynolds, wedi paratoi adroddiad ysgrifenedig ar y gynhadledd genedlaethol a oedd wedi'i chynnal ddechrau Hydref.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

Porchell
**Eich cigydd lleol**
**PEN-Y-GARN**
**FFON 828 447**
**LLUN: 9-5.30**
**MAW-SAD 8.00-5.30**
*Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol*

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**PLYGAIN MORLAN**
**7.30, nos Fercher, 21 Rhagfyr**
Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb.

**NOSON GWIS MORLAN**
**7.30, nos Fercher, 11 Ionawr 2017**
Cwis blynyddol ble mae timau o gapeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Ac os nad ydych chi mewn tîm, dewch draw i gefnogi!

Manylion llawn ar wefan Morlan:
**www.morlan.org.uk**
*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

# Bwlch Nantyrarian

Roeddwn i wedi bod ym Mwlch Nantyrarian o'r blaen ac mae o'n lle hudolus. Ond roedd 'na rywbeth ychydig yn wahanol am y lle y tro hwn; roedd o'n fwy agored rywsut ac mi wyddwn i pam - roedd 'na nifer o goed llarwydd wedi eu cwympo yno.

Mae Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nantyrarian ar lan llyn ac mae 'na gaffi braf iawn yno lle medrwch edrych dros y llyn wrth gael eich paned. Mae'r ganolfan yn un o'r rhai sy'n bwydo'r barcud coch ac felly mae cyfle i'w gweld yn bwydo bob pnawn. Fel mae'n digwydd, roedd un yn hofran uwchben wrth i mi gyrraedd; mae o'n aderyn trawiadol ac yn un rydan ni bellach yn ei gymryd yn ganiataol yng Nghymru.

Mae 'na bwyslais ar weithgareddau awyr agored ym Mwlch Nantyrarian ac mae pobl yn tyrru yma i feicio mynydd, rhedeg a cherdded. Mae'r ardal hon yn goedwig sy'n gorchuddio tua 35,000 o erwau yng ngorllewin Powys a Cheredigion ac mae yng ngofal Cyfoeth Naturiol Cymru. Mi ges i gwmni Gareth Owen, rheolwr y Ganolfan a Greg Jones sy'n Gynlluniwr Coedwigoedd ar y safle ac mi eglurodd Greg eu bod wedi gorfod llwyr gwympo rhannau helaeth o goed llarwydd yma oherwydd *Phytophthora ramorum*, sef y ffwng sy'n effeithio ar goed llarwydd.

Roedd y *Phytophthora* wedi ei ddarganfod mewn un lle yn 2012 ar safle fymryn i'r de o'r Ganolfan ac roedd y cwestiwn yn codi wedyn o sut y dylid ei reoli. A ddylid cwympo'r ychydig goed oedd wedi eu heffeithio yn unig neu a ddylid llwyr gwympo er mwyn sicrhau nad oedd haint y llarwydd yn dychwelyd? Penderfynu clirio'r cyfan wnaed yma er mwyn ceisio sicrhau na fydd yr haint yn dychwelyd. A dyna pam roeddwn i wedi sylwi ar ddarnau agored o amgylch y llyn – roedd hwn hefyd yn ddarn ble roedd y llarwydd wedi eu llwyr gwympo.

Y cwestiwn roeddwn i isio ateb iddo, oedd sut maen nhw'n darganfod yr haint. Mae'r llarwydden yn goeden gonifferaidd sy'n bwrw ei nodwyddau dros y gaeaf a hon ydi'r goeden sy'n rhoi'r lliw aur hyfryd mewn clytwaith o goed coniffer yr adeg hon o'r flwyddyn. Yn y gwanwyn mae nodwyddau ifanc ir, gwyrdd golau i'w gweld arni. I ganfod os oes haint ai peidio maen nhw'n edrych ar y coed yn y gwanwyn. Os ydi'r nodwyddau'n dechrau troi'n frown yn y gwanwyn, yna mae angen cymryd golwg eto. Gan fod erwau o goed i gadw llygad arnyn nhw, yr hyn sy'n digwydd ydi hedfan uwch eu pen mewn awyren gan chwilio am y rhai sy'n newid eu lliw yn y gwanwyn.



Llun: Cyfoeth Naturiol Cymru



Unwaith maen nhw'n sylweddoli fod problem gyda'r coed llarwydd, yna mae nhw'n cymryd samplau ac yn anfon darnau o'r canghennau a'r nodwyddau i labordy i wneud profion arnyn nhw. Mae sborau *Phytophthora* yn cael eu cario yn yr awyr gan y gwynt, ar ddillad, gan anifeiliaid, ar beiriannau, ar feiciau, ar esgidiau a gan gerddwyr. Fe eglurodd Gareth mai dyma pam mae cymaint o bwyslais ar lendid mewn safleoedd fel Bwlch Nantyrarian. Maen nhw'n gofyn i bawb sy'n ymweld â choedwigoedd i sicrhau fod ceir, beiciau ac esgidiau yn lân – yn arbennig felly os ydych chi'n rhywun sy'n ymweld â nifer o safleoedd tebyg - er mwyn ceisio atal y ffwng rhag lledaenu o un safle i'r llall.


Mae rhai o'r rhannau a gafodd eu clirio yma wedi eu plannu gyda tua 12,000 o goed brodorol – rhai fel y dderwen, masarnen fach, bedwen, y ddraenen wen, y ddraenen ddu a'r geiriosen ddu. Y gobaith drwy wneud hyn ydi y bydd modd osgoi llwyr gwympo a ffwng y llarwydd yn y dyfodol ac y bydd cyfle i fwynhau gogoniant y safle hon drwy'r coed brodorol.

**Bethan Wyn Jones**

Diolch i Bethan Wyn Jones am ganiatâd i gyhoeddi yr erthygl hon gyhoeddwyd gyntaf yn yr Herald Gymraeg yn y *Daily Post*

## GOGINAN

**Anrhydeddu awdur**




Nos Iau 3 Tachwedd cynhaliwyd noson yn Theatr Felin-fach o ddarlleniadau, perfformiadau a dangos clipiau ffilm o waith Caryl Lewis i ddathlu gwaith ac i anrhydeddu y ffaith iddi ennill tair gwobr yn ddiweddar. Ar yr un noson cyhoeddodd y Lolfa ei chyfrol ddiweddaraf *Y gwreiddyn* - cyfrol o un ar ddeg o straeon byrion yn ymwneud â natur, perthynas dyn â'i gyd-ddyn, cariad a cholled. Mae pob stori, fel y stori deitl, yn ceisio mynd i'r afael â chnewyllyn perthynas y cymeriadau â'i gilydd. Mae cyfrol ddiwethaf Caryl o straeon byrion, *Plu* yn cael defnydd helaeth mewn ysgolion a cholegau yn ogystal â mewn eisteddfodau. Mae *Y Gwreiddyn* (100t £7.99) yn ddilyniant ac yn ddatblygiad naturiol o'r gyfrol honno.



# Cyw yn dod â swyn y Nadolig i Aberystwyth

Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir yn rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawen i blant ar hyd a lled Cymru. Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Catrin, Dona Direidi, Seren, Lobs ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i Aberystwyth ar ddydd Mercher, 7 Rhagfyr ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl.


Bydd tair sioe yn cael eu cynnal yn Ysgol Penweddig ar ddydd Mercher, 7 Rhagfyr. Mae tocynnau yn dal ar gael ar gyfer y sioeau am 11:30 y bore, 1:45 a a 5:45 y prynhawn. Mae'n bosibl archebu ar gyfer grwpiau hefyd, os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich ysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!

Mae'r tocynnau ar gael i'w prynu ar-lein. Ewch i wefan s4c.cymru/cyw i ddewis pa sioe yr hoffwch ei mynychu ac i brynu eich tocyn. Mae ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb ac os oes angen help arnoch chi wrth archebu ar-lein, mae Gwifren Gwylwyr S4C ar gael i'ch helpu, ar 0370 600 4141. Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn pob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!




# Y Tincer yn ennill y stomp

Nos Fercher Hydref 2il daeth timau o'r papurau bro lleol i Morlan i gystadlu yn Stomp Lyfrau. Y ddau gynrychiolodd y Tincer – a diolch iddynt am gytuno – oedd Llinos Dafis a Gareth William Jones. Dewisodd Llinos Dafis gyfrol Wil Aaron am y Mormoniaid Poeri i Lygad yr Eliffant – Anturiaethau'r Saint Cymreig yn y Gorllewin Gwyllt (Y Lolfa) a Llyfr Gwyn (Barddas) – hunangofiant llenyddol Gwyn Thomas oedd dewis lyfr Gareth. Ar ôl i'r gynulleidfa bleidleisio ar yr wyth gyfrol roedd Gareth yn un o dri ddaeth uchaf – ac ar ôl i'r tri hynny ddarllen darn o'u cyfrol Gareth ddaeth i'r brig gan ennill tocyn llyfr iddo ei hun ac i'r Tincer. Llongyfarchiadau iddo! Mae wedi cyflwyno ei docyn personol tuag at un y papur a byddwn yn cynnal cystadleuaeth y mis nesaf gyda'r tocyn yn wobr.










## DÔL-Y-BONT

**Pen blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i Llinos Evans, Dolwerdd, ddathlodd ben blwydd arbennig ar Dachwedd 5. Gobeithio iddi fwynhau ei hun yn Sir Benfro.

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# PENRHYN-COCH

**Suliau**
Horeb Gweler hefyd www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php

*Tachwedd*
20 10.00 Uno ym Methel Y Parchg Peter Thomas
27 10.30 Y Parchg Peter Thomas

*Rhagfyr*
4 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
11 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa deuluol
18 2.00 Oedfa Nadolig
25 8.00 Cymun bore Nadolig

## Cyfnod prysur

Dymuniadau gorau i Joe Scannell fydd yn treulio'r cyfnod dros y Nadolig yn y Theatre Royal, Norwich yn y pantomeim Jack and the beanstalk.

## Cymdeithas y Penrhyn

Nos Iau, 20 Hydref, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Dana Edwards, awdures ac ymchwilydd teledu sy'n byw yn Aberystwyth. Mae Dana wedi cyhoeddi dwy nofel, un yn Saesneg o'r enw *The Other Half* a'r llall yn Gymraeg dan y teitl *Pam?* Nofel wedi ei gosod yn Aberystwyth yn y 90au yw *Pam?* sy'n adlewyrchu cefndir diwylliannol a gwleidyddol yr ardal yn y cyfnod.

Teitl y sgwrs oedd 'Darnau ohona i' ac roedd Dana wedi dod ag ambell eitem sydd wedi effeithio ar y ffordd y mae hi'n ysgrifennu gyda hi. Soniodd am ei hardal enedigol, sef Dolgran yn ymyl Pencader, a sut mae hi'n gwneud ei hymchwil ar gyfer ysgrifennu a sut mae'r broses greadigol yn gweithio iddi hi.



Roedd hi'n noson ddiddorol a gododd awydd i fynd ati i ddarllen y ddwy nofel.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Tedi Millward, Ger-y-llan, ar farwolaeth ei fab Andras Millward ym Mryste. Magwyd Andras yn Aberystwyth; cyhoeddodd nofel i ddysgwyr yn 1999 *Deltanet* a *Prosiect Nofa* ac *Un Cythraul yn Ormod* ymhlith eraill.

Roedd Andras Millward hefyd yn athro a hyfforddwr campau amddifyn (*self defence*) ym Mryste. Bu farw ar Hydref 16, a chynhelir ei angladd ym Mryste ar Ddachwedd 19. Mae'n gadael dwy ferch, Megan Daisy a Hannah Lilly.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Janet Harris, Penrhyn-coch, a fu farw ar y 26 o Hydref yn ei chartref.

Cydymdeimlwn â Peter a Glenys Morgan, Tir-y-dail, ar farwolaeth tad Peter yn ddiweddar.

## Ciosgs ffôn

Prynwyd ciosg Salem i'r gymuned y llynedd gan y Cyngor Cymuned am bunt. Rhaid gwneud ymholiadau, gallai yr un ar sgwâr y Penrhyn fod yn gartref da i'r diffibriliwr?



## Dathlu 80 mlynedd o deledu'r BBC

Mae Dr Jamie Medhurst – Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth - wedi bod yn rhan o brosiect hanes ar-lein i nodi 80 mlynedd ers y darllediad teledu cyntaf erioed ar y BBC. Mae Jamie yn un o chwe academydd sydd wedi ysgrifennu am ddigwyddiadau allweddol yn hanes teledu'r BBC – o'r Noson Agoriadol i Goroni'r Brenin Siôr VI ym 1937, datblygiad Alexander Palace a rhaglenni Gemau Olympaidd 1948. Cyhoeddwyd yr erthyglau mewn adran arbennig ar brif wefan y BBC, 'The Birth of TV', gyda'r tudalennau'n mynd yn fyw ers 2 Tachwedd, i ddathlu'r wythdeg mlwyddiant: www.bbc.co.uk/historyofthebbc/birth-of-tv Ddydd Mercher 2 Tachwedd ac mae croeso i bawb.

Ar hyn o bryd, mae Jamie yn gweithio ar lyfr o'r enw *The Early Years of Television and the BBC* a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Wasg Prifysgol Caeredin yn 2017.





Parti Calan Gaeaf Cylch Meithrin Trefeurig



Plant ysgolion Sul St Ioan a Horeb

### Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Anita Pugh, 9 Tan-y-Berth sydd yn yr ysbyty.

Hefyd, da yw deall fod Ann Jones, 12 Tan-y-Berth yn gwella yn raddol ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau Hydref 13eg roedd y noson yng ngofal Alwen Fanning a Mair Jenkins. Croesawodd Alwen pawb i'r cyfarfod ac yna trafodwyd yr ohebiaeth a ddaeth i law. Anogwyd aelodau i fynychu Pwyllgor Celf a Chrefft ar y 15fed o Dachwedd. Fe soniwyd am arddangosfa Coeden Nadolig yn Eglwys Sant Ioan ddechrau Rhagfyr, a threfnwyd i gymryd rhan fel arfer, y thema eleni yw Cân Nadolig. Trafodwyd hefyd ein cinio yn dathlu deugain mlynedd er cychwyn ein cangen a gynhelir yng Ngwesty y Marine ar y 10fed o Dachwedd. Yna fe groesawodd Alwen ein gwraig wadd, sef Kim James o Aberystwyth. Mae Kim yn athrawes rhan amser yn Ysgol Rhydypennau ac yn arlunydd o fri. Treuliodd beth amser yn yr Affrig. Mae wedi dysgu Cymraeg ac wedi gwneud gwaith campus o hynny. Dangosodd i ni sut oedd yn mynd ati i arlunio ac yr oedd yn agoriad llygad i ni i gyd wrth weld y darlun yn datblygu. Fe roddodd gyfle i bob un ohonom geisio gwneud darlun. Noson ddiddorol dros ben. Diolchwyd yn swyddogol i Kim gan Elisabeth Wyn. Yna cafwyd cwpanaid a sgwrs i ddiweddu'r noson.

### Brysiwch wella

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mairwen Jones, Tan-y-berth, ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

## Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tîm Merched Penrhyn-coch**

**18 Medi** - Tregaron Turfs 4 Penrhyn-coch 3
**25 Medi** - Penrhyn-coch 9 Felin-fach 1
**2 Hydref** - Prifysgol Aberystwyth 2. Penrhyn-coch 5
**16 Hydref** - Llanbedr Pont Steffan 0 Penrhyn-coch 4
**30 Hydref** - Penrhyn-coch 3 Tregaron Turfs 2
**6 Tachwedd** - Penrhyn-coch 7 Llanbedr Pont Steffan 2

## Y BORTH

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Rhiain Gwynne a'r teulu, Felinwern, ar farwolaeth sydyn Eifion Gwynne, brawd Rhiain ddiwedd mis Hydref.

### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus i Elizabeth Evans, Perllan Hen, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 70 ar 5 Tachwedd.

### Ffoi i'r Aifft

Taith Gerdded 140 milltir i gydsefyll gyda Ffoaduriaid
Heddiw, mae yna 65 miliwn o bobl yn ffoaduriaid ar draws y byd – y mwyaf ers yr Ail Ryfel Byd. I dynnu sylw at yr angen llethol sy'n eu hwynebu, bydd tîm o staff Cymorth Cristnogol a Cytun (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) yn arwain taith gerdded noddedig ar draws Cymru, o Fethlehem (Sir Gaerfyrddin) i'r Aifft (Sir Ddinbych), gan godi arian tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.
Bydd y daith yn cychwyn gyda gwasanaeth ym Methlehem bore Sul Rhagfyr 4ydd ac yn teithio i fyny drwy Edwinsford, Llanbed, Tregaron, Aberystwyth, Ynys-las – lle y bwriedir croesi'r Afon Ddyfi mewn cwch, yn yr un modd a'r miloedd o ffoaduriaid sydd wedi ceisio croesi Môr y Canoldir. Ymlaen wedyn i Fachynlleth, Brithdir, Y Bala, Rhuthun a chyrraedd yr Aifft ar Ragfyr 15fed. Bydd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy i gloi'r daith nos Iau Rhagfyr 15fed am 7 o'r gloch gydag Esgob Gregory Cameron, Esgob Llanelwy yn pregethu.
Meddai'r Parch Aled Edwards, Cyfarwyddwr CYTUN, 'Rwy'n falch iawn o'r cyfle i fod yn rhan o'r daith arbennig hon. Cefais y fraint o deithio i weld sefyllfa'r ffoaduriaid ar y ffin rhwng Serbia a Macedonia ac mae'n holl bwysig ein bod yn dal ar bob cyfle i godi llais ac i godi arian i leddfu'r angen mawr sy'n wynebu'r teuluoedd hyn sydd wedi ffoi rhag sefyllfaoedd enbyd yn ein byd.'
Meddai Huw Thomas, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru – "Gyda thymor y Nadolig yn agosau, cofiwn fel y bu raid i Iesu a'i deulu ffoi i'r Aifft i ddianc rhag trais Herod. Heddiw, mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda phobl sydd mewn sefyllfa debyg, gan ddarparu cymroth dyngarol megis bwyd, meddygyniaeth a phecynnau glendid, mewn gwersylloedd ffoaduriaid ar draws y byd. Mae'r daith gerdded hon yn fodd nid yn unig i godi arian hanfodol i gynnal ein gwaith, ond hefyd i dynnu sylw i'w dioddefaint, a herio'r ffordd negyddol y mae'r cyfryngau a'r llywodraeth wedi bod yn portreadu ffoaduriaid."

I gofrestru i gerdded y daith, neu rannau ohoni, neu i noddi'r cerddwyr, ewch i wefan Cymorth Cristnogol – http://www.christianaid.org.uk/cymru/news/escape.aspx?Page=2
www.justgiving.com/fundraising/Pred-Owen-Griffiths
Dyma ddyddiadau yr ardal hon
Dydd Mercher, Rhagfyr 7fed Blaenpennal - Aberystwyth
Dydd Iau, Rhagfyr 8fed Aberystwyth – Ynys-las (ac ymlaen i'r Gogledd trwy Aberdyfi). Maent yn gobeithio croesi y Ddyfi tua 3.00



# *Llun y mis*

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Cwmrheidol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Dilynwch y Tincer ar Trydar **@TincerY**

# Datblygiad newydd yng Ngogerddan

Mae datblygiadau cyffrous ar y gweill yng Ngogerddan. Bwriedir codi canolfan newydd, sef Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (Aberystwyth Innovation and Enterprise Campus, neu AIEC) yno yn y blynyddoedd nesaf. Bydd y datblygiad yn digwydd ar y tir sydd i'r dde o'r ffordd fawr wrth fynd o Benrhyn-coch ar ôl mynd heibio'r hen adeilad. Bydd y datblygiad yn rhoi pwys mawr ar ddod â gwyddonwyr a busnesau at ei gilydd er mwyn manteisio ar yr ymchwil wyddonol a wneir yng Ngogerddan i greu busnesau newydd e.e busnesau a fyddai am ddatblygu bwydydd newydd. Amcangyfrifir y bydd tua 45 o swyddi newydd yn cael eu creu. Bydd cost y cynllun yn gyfan tua £40 miliwn, gyda hanner hwnnw yn dod o Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n debyg fod yr arian hwnnw'n ddiogel, er gwaethaf y bleidlais ddiweddar, gan ei fod yn rhan o raglen gwario 2014-20. Ond mae o'n gwneud i ddyn ofyn beth ddaw o gynlluniau tebyg yn y dyfodol?

Nos Fawrth, 18 Hydref, cafwyd cyflwyniad i'r cynllun yn Neuadd y Penrhyn, cyn cyfarfod y Cyngor Cymuned, a daeth nifer dda o bobl i weld a chlywed am y cynllun. Cwmni Cushman and Wakefield o Fanceinion oedd yn gyfrifol am wneud y cyflwyniad. Roedd croeso cyffredinol i'r datblygiad. Y brif ystyriaeth gan lawer oedd yr oblygiadau o ran traffig. Gan mai rhyw 45 o swyddi newydd y bwriedid eu creu, ni fyddai'r effaith tymor hir ar draffig yn sylweddol, ond fe fydd traffig trwm yn ystod y cyfnod adeiladu, ac mae'r ddwy ffordd sy'n arwain at y lle o ffordd Bow Street - Gelli Angharad yn gul. Awgrymwyd y dylai'r cwmni ystyried hyn o ddifrif, a thrafod gyda Chyngor Ceredigion. Hefyd roedd y datblygwyr yn awyddus i arafu'r traffig sy'n mynd heibio Gogerddan ar y ffordd i'r Penrhyn, a thrafodwyd gwahanol ffyrdd o wneud hyn.


Roedd ffurflenni ar gael i bobl wneud sylwadau ar y cynllun, neu fe ellid gwneud hynny ar-lein. Bydd cais cynllunio yn mynd i Gyngor Ceredigion ddechrau 2017. Os bydd popeth yn mynd yn iawn, gobeithir y bydd yr adeiladau newydd wedi eu cwblhau erbyn canol 2019.





# LLANDRE

### Cyfrol newydd




Lansiwyd cyfrol ddiweddaraf John Barnie *Wind Playing with a Man's Hat* (Cinnamon Press) yn Aberystwyth ar Dachwedd 3ydd. Mae'n gyfrol o gerddi craff sy'n cyfuno gonestrwydd lleddf am newid, marwoldeb a thywyllwch â gweledigaeth delynegol, gyfewin sydd hefyd yn cydnabod y goleuni.

### Clwb 50 Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn

Enillwyr Mis Tachwedd
1. Alan Wynne Jones
2. Gruffydd Aled Williams
3. Marian Beech Hughes

### Banc Bro Llanfihangel Genau'r Glyn

yn cyflwyno
**Carol a Channwyll**
Noson Nadoligaidd i gefnogi Llyfrau Llafar Cymru
**Nos Wener 2 Rhagfyr 2016**
**6.00** Canu Carolau yn y Parc yng ngolau cannwyll (dewch â chanwyll, lantern neu dortsh)
Gorymdaith i Fethlehem
**6.30** Sulwyn Thomas, Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru yn cynnu cannwyll i oleuo'r tywyllwch
**Noson Nadoligaidd**
Diodydd tymhorol, mins peis, cystadlaethau
Amrywiol stondinau: Llyfrau, crefftau, bwyd, poteli a raffl.
Cyhoeddir enillwyr Clwb 50 fis Rhagfyr
**Cystadlaethau Ysgrifenedig:**
**Gorffen y limrig -**
Un noson wrth ganu carolau
Yn Llandre a'r lleuad yn olau,
Mi welais hen sgythan
O'r goedwig yn hedfan

**Llunio brawddeg** o'r llythrennau LLYFRAU LLAFAR
Gorffenwch y limerig a/neu'r frawddeg ac anfonwch eich ceisiadau at Gwenda James, Tre Medd, (gwenda_llan@yahoo.co.uk) erbyn Tachwedd 28ed os gwelwch yn dda. Bydd yr enillwyr yn cael eu hysbysu yn ystod y noson. Pob lwc i chi gyd. Croeso cynnes i bawb.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Huw a Beverly Gwilym ar enedigaeth mab – Steffan brawd bach i Joseph ac Elan.

### Merched y Wawr

Cawsom ein diddori yn Merched y Wawr Llandre nos Lun Hydref 17 gan Glesni Haf Powell yn siarad sut y dechreuodd busnes Crefftau'r Bwthyn a dangosodd ei gwaith ar gyfer y Nadolig. Mae yn hanu o Sir Fôn ac yn awr yn byw yn Llanfihangel-y-Creuddyn. Milfeddyg yw ei gwaith bob dydd. Diolchwyd iddi gan ein Llywydd Gwenda James.

### Y Plygain

Ar nos Iau Tachwedd 24ain am 7.30 cynhelir noson arbennig iawn yn Bethlehem pan fydd Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch a Trefor Puw yn olrhain hanes y Plygain ac yn rhoi blas byw i ni o'r carolau sy'n nodweddiadol o'r traddodiad hwn. Mae hon yn noson sy'n cael ei threfnu ar y cyd rhwng y Banc Bro a Threftadaeth Llandre ac mae'n agored i bawb. Noder mai nid gwasanaeth Plygain fydd hwn ond cyfle prin i ni ddod i ddeall mwy am draddodiad Cymreig sy'n dal i gael ei ddathlu mewn ardaloedd yng Nghymru, ac sy'n, mae'n ymddangos, yn profi adfywiad yn y diddordeb yn yr hen arfer.i fechgyn yn yr oes honedig-gywirfoes honno.

### David Bryan James (1929-2016)

**Bonheddwr, cymwynaswr, gwyddonydd, hanesydd ac awdur**. Cofnodwyd marwolaeth David Bryan James yn rhifyn mis Medi o'r *Tincer*; dyma gyfle i grynhoi hanes ei fywyd yn yr ardal hon.

Ganwyd a magwyd David James ym Myddfai, Sir Gaerfyrddin. Ar ôl mynychu ysgol gynradd Myddfai a'r Ysgol Sir yn Llanymddyfri gadawodd y pumed dosbarth i weithio adref ar y fferm cyn treulio cyfnod byr yn Sefydliad Ffermio, Pibwr–lwyd, Caerfyrddin. Fe'i derbyniwyd wedyn fel myfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor, lle astudiodd Botaneg a Botaneg Amaethyddol ac wedi graddio ymchwiliodd ar gyfer gradd Meistr mewn Gwyddoniaeth (M.Sc.). Ar ôl rhyw bum mlynedd ym Mangor y cam nesaf fu i Goleg Crist Caergrawnt, lle enillodd ddiploma mewn amaethyddiaeth (Dip. Agric. Sci.). Yn 1955 fe'i apwyntiwyd yn ddarlithydd yn yr Adran Botaneg Amaethyddol yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ac *"yng nghyflawnder yr amser"*, (un o'i hoff ymadroddion) fe'i ddyrchafwyd yn ddarlithydd hŷn yn 1973. Bu'n weithiwr diwyd a ffyddlon ac aelod gwerthfawr o'r Adran am oddeutu 35 mlynedd, hyd at ei ymddeoliad c. 1990. Yn ei flynyddoedd cynnar yn Aberystwyth bu'n is–warden Neuadd Breswyl Pantycelyn, un–rhyw i fechgyn yn yr oes honedig-gywirfoes honno.

O fewn byr amser cyfarfu David ag Eleanor Jones, merch leol a doethur ddisglair o'r Adran Mathemateg yn y coleg. Fe'u priodwyd ym mis Medi 1958 a bu eu huniad yn un hir a hapus cyn i Eleanor ddioddef sawl blwyddyn o afiechyd blin. Bu farw ym mis Mehefin 2011.

Prif ddiddordeb ymchwil David James oedd dylanwad ffactorau amgylcheddol ar dyfiant a dosraniad cnydau a phlanhigion. Goruchwyliodd rhai myfyrwyr ôl–raddedig i ymchwilio at ddoethuriau yn y pynciau hyn, yn ogystal â llawer o fyfyrwyr tramor yn arbennig ac yn rhannol tuag at ofynion graddau meistr. Cyhoeddodd lawer o ganlyniadau ei ymchwil mewn nifer o gylchgronau gwyddonol. Heblaw am ei waith yn y coleg, roedd gan David James ystod eang o ddiddordebau a gweithgareddau a chyfrannodd yn helaeth ac yn hael i lawer achos, mudiad a chymdeithas. Yn ganolog ac yn angor i'r cyfan fu ei ymlyniad



David James yn ei 70au cynnar

oes i'r Efengyl ac i'r Eglwys Bresbyteraidd yn benodol. Disgynnai'n uniongyrchol o William Williams, Pantycelyn ar ochr ei fam-gu (mam ei dad) a bu ei dad-cu, ei dad a'i ewythrod yn flaenoriaid yng nghapel Bethania, Mydddfai. Bu David ei hun yn addoli'n ffyddlon yn ei famiaith yng Nghaerfyrddin, Bangor a Chaergrawnt. Ar ôl priodi, ymunodd â chapel Dewi Sant yn Aberystwyth, lle bu ef ac Eleanor yn ffyddlon a gweithgar gydol eu hoes. Bu David yn ysgrifennydd y capel am tua chwarter canrif, fe'i etholwyd yn flaenor yn 1965 ac yn gynharach eleni llongyfarchwyd ef gan Y Gymdeithasfa yn y Dwyrain ar gyflawni hanner canmlynedd o wasanaeth. Fe'i dyrchafwyd hefyd yn Llywydd Henaduriaeth Saesneg o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, cangen Trefaldwyn a'r Amwythig.

Ar ol marwolaeth Elinor brwydrodd ymlaen gan barhau i fuddio o gyfeillgarwch a chefnogaeth ffrindiau a chymdogion agos, yn enwedig Beryl a Tom Hughes yn Llandre, y pentref lle bu'n byw ers yr 1960au cynnar. Am y ddwy flynedd ddiwethaf bu David yn preswylio yng nghartref Hafan-y-Waun, Aberystwyth lle cafodd ofal rhagorol. Gwerthfawrogodd hynny'n fawr iawn ac hefyd pob ymweliad ag ef yno. Bu farw'n dawel a phlygeiniol yn y cartref ar y 25ain o Awst; cynhaliwyd y gwasanaeth angladd ar 31 Awst yng nghapel Dewi Sant dan ofal ei gyn-weinidog, Y Parchg J.E. Wynne Davies, a chyflwynwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent Pen-y-Garn, Llandre.

**David Williams, Llanbadarn**

# Taith gerdded y mis

## Machynlleth i Lyn Glanmerin

**Man dechrau**: Maes parcio 'Celtica'.
**Map**: OS Explorer OL23. GR 745006.
**Pellter**: 5.5 milltir. Dringo graddol at y llyn.




O'r maes parcio 'nôl tuag at y cylchdro a throi i'r chwith ger y 'Lodge'. I fyny'r grisiau ac ymlaen heibio'r tai i gyrraedd y ffordd. Troi i'r chwith ac ymlaen ar hyd y feidr heibio Bryn Glas ac wedyn y llwybr. Troi i'r dde cyn y goedwig i fynd draw at y llyn ac yn ôl i'r groesffordd a syth ymlaen ar hyd llwybr lawr i gwrdd a ffordd Dylife ac wedyn Maengwyn. Gellir croesi drwy'r maes parcio yn ôl i'r man dechrau.

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf Awst a Medi
01970 820 050
Pennau

TACSI EDDIE
Perchennog: Connie Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226



Cyfle i ennill copi o CD newydd llawn hiwmor a chanu gwlad **'Y Dyn o Gwmfelin Mynach'**. Atebwch y cwestiwn anodd yma; **Sawl aelod sydd yn y ddeuawd canu gwlad 'Dylan a Neil'?**

Atebion at welshwhisperer@live.com
neu: Caeglas, Cwmfelinmynach, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gâr, SA34 0DJ
(Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad).
**www.welshwhisperer.cymru**

# Colofn Enwau Lleoedd


Cwmwythig

Pe teithiech o gylchdro Gelli Angharad i gyfeiriad Capel Bangor a chymryd y troad cyntaf i'r chwith, wedi i chi basio annedd Pentre (neu Bentre Rhydonnen a rhoi iddi ei hen enw llawn), fe ddeuech at fferm *Cwmwythig*.

Derbyniodd y fferm honno ei henw oddi wrth gwm bychan sy'n gorwedd yn union i'r gorllewin. Tystia R. J. Thomas, yn ei gyfrol *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (1938; t. 194) mai *Mwythig* yw enw'r nant fechan sy'n llifo drwy'r cwm hwn gan ymuno ag afon Rheidol gyferbyn â Glasgrug.

Mynega R. J. Thomas rywfaint o ansicrwydd ynghylch union ffurf yr enw serch hynny: *mwythig*, *amwythig* neu *wythig*. Â yn ei flaen i esbonio, os *mwythig* sydd yma, y gall fod yn gysylltiedig â'r enw *mwyth* (neu *moeth*) yn golygu 'anwes', ac felly, yn perthyn i ddosbarth o enwau anwes ar nentydd megis *Serchan* a *Thegan*. Mae'n cydnabod hefyd y gallai gynnwys gair arall *mwyth* sy'n dynodi 'twymyn neu gryd', er na fyddai arwyddocâd hynny'n hollol glir i mi.

Mae Iwan Wmffre yn ei gyfrol *The Place-Names of Cardiganshire* (t. 1022) yn rhestru ffurfiau ar yr enw *Cwmwythig* sy'n cadarnhau'r ansicrwydd ynghylch yr ail elfen, e.e. *Cwm y Mwythig* (1685), *Cwm Wythig* (1732), a *Cwm Mwythig* (1747).

Fodd bynnag, o holi teulu Cynthia Evans sydd wedi ffermio *Cwmwythig* ers sawl cenhedlaeth, daeth i'r amlwg mai *Nant Wythig* yw eu henw hwy ar y nant sy'n llifo drwy'r cwm. Gan fod ffurfiau llafar yn aml yn agosach at ffurf wreiddiol enwau, rhaid ystyried y ffurf *wythig* o ddifrif, ond ar yr un pryd, rhaid cyfaddef nad yw hynny'n dasg hawdd!


Gall *nant* fod yn enw benywaidd neu wrywaidd. O'i gymryd fel enw benywaidd, gan fod disgwyl i ansoddair dreiglo yn dilyn enw benywaidd, gallai *wythig* yn yr enw *Nant Wythig* fod yn ffurf dreigledig ar *gwythig*. Ystyr *gwythig* yw 'llidiog' neu 'ffyrnig', a byddai hynny'n gweddu i nant ac iddi lifeiriant cryf a garw.

Mae'n anoddach dadlau mai *gwythig* sydd yn *Cwmwythig* gan na ddisgwylid treiglad yn dilyn yr enw gwrywaidd *cwm*. Yr unig esboniad posibl yw bod y ffurf dreigledig *wythig* wedi ei throsglwyddo'n ddigyfnewid o'r nant i'r cwm.

Er gwaetha'r tebygrwydd yn yr enwau, ansicr yw'r berthynas â *Mwythig* i'r de-ddwyrain o Aberaeron; *Amwythig*, annedd a arferai sefyll ychydig i'r dwyrain o Abaty Hendy-gwyn yn sir Gaerfyrddin, ac *Amwythig*, enw Cymraeg *Shrewsbury*.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**



*© Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2016). All rights reserved. (1990s)*

# BOW STREET

### Suliau

**Garn**

10.00 a 5.00

Gweler hefyd www.capelygarn.org/

*Tachwedd*

20 Bugail - Cymun

27 Rhidian Griffiths

*Rhagfyr*

4 Noddfa Roger Ellis Humphreys

11 Oedfa'r Ofalaeth

18 Bugail

25 Oedfa'r Nadolig

**Noddfa**

*Tachwedd*

27 Uno yn y Garn am 10.00

*Rhagfyr*

4 Oedfa am 10.00 Gweinidog.

11 Oedfa Nadolig yn y Garn am 10.00

18 Trefn Lleol am 10.00

24 Gwylnos Noswyl Nadolig am 11.30 yr hwyr

25 Uno yn y Garn am 9.00

### Diolch

Fe hoffai Richard a Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, ddiolch o galon am yr holl gardiau ag ati a gawsant ar achlysur dathlu pen blwydd priodas arbennig yn ddiweddar. Ysbrydoliaeth go iawn i ddal ati am flynyddoedd eto!

### Clwb CIC

Roedd Capel Y Garn yn llawn bwrlwm ar y 26ain o Hydref wrth i aelodau CIC Y Garn fentro i aros lan trwy'r nos i gasglu arian tuag at Apêl Elain a Tŷ Hafan (elusennau o ddewis yr ieuenctid).

Dechreuodd y noson am 8yh lle cawsom gyfle i chwarae lot o gêmau tîm, rhedeg o gwpas, chwarae ar y bwrdd pŵl a tennis bwrdd a chyfle i chwarae ar yr Xbox newydd. Felly roedd digon i'n diddanu ni.

Am hanner nos cawsom gyfle i gael bwyd gyda'n gilydd. Fe wnaethom fwynhau'r toasties ham a caws a'r ffynnon siocled gyda ffrwythau.

Rhwng 3yb a 6yb roeddem yn teimlo bod y cloc wedi stopio, yr oriau'n mynd yn araf ac roedd pawb yn dechrau blino; yn yr amser yma cafodd yr ieuenctid gyfle i beintio Pwmpeni a gwneud crefft. Roedd pawb yn dda iawn yn annog ei gilydd i beidio a cysgu. Fe aethom am dro sydyn rownd y maes parcio er mwyn helpu'r blinder, ac yna i basio'r oriau olaf fe wnaethom chwarae gêmau bwrdd a chardiau.

Dwi mor falch o lwyddiant yr ieuenctid a gymerodd ran, a diolch yn fawr i bawb a ddaeth heibio yn ystod y nos i'n cefnogi. A chofiwch, mae yna ddal amser i noddi aelodau CIC.

Os hoffech mwy o fanylion cysylltwch gyda Zoe Jones (Swyddog Menter Gobaith) ar 01970 611510/07584411524. zoejones34@gmail.com

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Debbie ac Owain Morgan a'r teulu, Annedd Deg, ar farwolaeth tad Debbie – Hughie Jones, Llanbadarn, ar 12 Tachwedd.

### Diolch

Mae Annie Edwards, Garreg Lwyd, am ddiolch yn fawr i chwiorydd Capel y Garn am y te a'r croeso hyfryd ar achlysur ei phen-blwydd – a hwnnw'n ben-blwydd arbennig iawn – ym mis Hydref, a diolch i Siân Hayward am wneud y gacen. Hoffai Annie hefyd ddiolch i bawb yn ddiffuant am y llu cardiau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Danny ac Emma Whiteway, Tafarn Rhydypennau, ar enedigaeth mab – Harri – brawd bach i Brandon, Cameron a Katie.

Hefyd i Esyllt a Ben Sears ar enedigaeth mab – Idris – ar 2 Tachwedd yn Llyswyrny, Bro Morgannwg; brawd bach i Mabli; ŵyr i Elgan a Menna Davies, Maes Afallen.





### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Jaci Taylor, Bryn Castell, ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

### Cyfarfod Brexit

Daeth tyrfa dda o bobl yr ardal – a thu hwnt – i neuadd Rhydypennau ar 10 Tachwedd, i drafod 'Brexit a Dyfodol Cymru'. Cyfarfod wedi'i drefnu gan gangen Rhydypennau o Blaid Cymru oedd hwn, gydag Elin Jones AC (sydd hefyd yn Llywydd y Cynulliad) yn llywio'r drafodaeth. Does dim dwywaith nad yw Brexit yn bwnc llosg y mae llawer o ansicrwydd a gofid yn ei gylch, ac adlewyrchwyd hynny yn natur sylwadau'r ddau siaradwr, Simon Thomas AC a Jonathan Edwards AS. Cafodd nifer yn y gynulleidfa gyfle i fwrw eu bol a mynegi eu pryderon am Brexit a'i ganlyniadau posib. Dymuna swyddogion y gangen ddiolch i bawb a gefnogodd y noson; gobeithio y bydd modd trefnu digwyddiad tebyg yn y dyfodol agos.







# Clwb Strôc Aberystwyth a'r Cylch

Er y gwyliau dros gyfnod yr haf, parhaodd prysurdeb y Clwb. Roedd llu o'r cefnogwyr am gael golwg ar Westy'r Conrah o dan adain y perchnogion newydd, Cymry Cymraeg sy'n adnabyddus yn yr ardal. Wedi adnewyddu'r adeilad a'i foderneiddio yn hyfryd i'r olwg, plasty digonol i frenin. Mis Awst cafwyd te prynhawn a phedwar deg tri wedi ymgynnull i wledda ar frechdanau yn cynnwys amrywiaeth blasus wedi'u torri yn gywrain, dewis anhygoel o wahanol gacennau gyda te neu goffi. Y gweinyddesau yn hedfan yn ddiwyd gyda thebot neu jwg i ddigoni y bwytawyr. Cafwyd dwy raffl fel arfer a mwynhad oedd gwrando ar y clecs a'r chwerthin iach yn cadarnhau i ni gael prynhawn i'r brenin.

Daeth mis Medi a dewis Audrey oedd bwyty'r Sands ar fin y traeth yn y Borth. Adeilad lliwgar yn denu plant a phobl ieuanc i hufen ia a mwy. Ond oddi mewn, darlun hollol wahanol gan fod y byrddau a'r cadeiriau wedi eu gosod yn daclus er budd yr anabl. Dim yn ormod i'w wneud gan y gweinyddesau glandeg gan helpu pawb i fod yn gyfforddus gyda'u gwên hyfryd i'r pum deg dau a eisteddai o amgylch y byrddau.

Roedd yr arlwy wrth fodd pawb yn cynnwys ham wedi ei ferwi gyda saws persli, stwmp tatws a phys. I ddilyn cafwyd dewis o darten afalau a chwstard, treiffl, cacen gaws neu darten meráng lemwn a the neu goffi i ddilyn.

Diolchodd ein Cadeirydd am y wledd ddifai, a thynnwyd y raffl fel arfer er budd y cefnogwyr. Bydd yr enw Sands yn aros yn hir ar wefusau caredigion yr achos. Eu croeso twymgalon a'u parodrwydd i helpu'r anabl a'r gweini chwim a'r arlwy yn arbennig yn aros allan gyda rhai uchaf eu clod. Pen ac ysgwydd yn uwch na'r cyffredin. Digon wedi eu osod yn ddeheuig ar y platiau yn broffesiynol. Dim yn ormod o ganmoliaeth i fwyty syml ond erys yr enw Sands ar y brig a chawn ymweld eto yn fuan yn ddi-os. Nid aur yw popeth melyn a phrofwyd hynny gan ein hymweliad â lle nad anghofiwn. Pob lwc iddynt yn ieuanc a haeddant y clod am eu hymdrech a'u arbenigedd. Da iawn.

## TREFEURIG

### I Zanzibar

Dymuniadau gorau i Mari Healy, Maesmeurig, sydd wedi mynd i Zanzibar am chwech wythnos ar 16 Hydref i ddysgu plant ac oedolion. Er mai y bwriad gwreiddiol oedd mynd i Madagascar penderfynodd fynd yn y diwedd i Zanzibar. Roedd yn edrych ymlaen i aros mewn byngalo ar y traeth a seiclo yn ddyddiol i'r ysgol. Gobeithiai gael cyfle ar y penwythnosau i grwydro. Cafodd amser prysur cyn mynd – yn recordio efo Sorela ym mis Medi a thynnu lluniau i'r CD cyn cychwyn. Bydd nol cyn y Nadolig. Prynodd gamera GoPro cyn mynd felly gallwn ddisgwyl lluniau arbennig ganddi!



## Tymor y Nadolig

### yng Nghapel y Garn

26 Tachwedd 10–12 y bore
Paned a Chroeso ar drothwy'r Adfent
Stondin amrywiol. Elw tuag at Galonnau Cariad Cymru a Chapel y Garn

7 Rhagfyr 2.30 y pnawn
'Naws y Nadolig' gyda John ac Ina Tudno Williams
Te i ddilyn yng nghwmni Cymdeithas y Chwiorydd

11 Rhagfyr 10 y bore
Gwasanaeth Nadolig y Plant

16 Rhagfyr 7.30 yr hwyr
'Dathlu'r Nadolig'
yng nghwmni Cymdeithas Lenyddol y Garn

18 Rhagfyr 5 yr hwyr
Gwasanaeth 'Y Gair a'r Geiriau'
– darlleniadau a cherddoriaeth ar gyfer y Nadolig

25 Rhagfyr 9 y bore
Oedfa Gymun deuluol



*Croeso cynnes i bawb*

## Cyfeillion y tincer

**FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB**

Enw Llawn ____________________

Cyfeiriad ____________________
____________________
____________________

Côd Post ____________

Rhif Ffôn ____________

**Dychweler at y Trefnydd**
Bethan Bebb,
Pen Pistyll,
Cwmbrwyno,
Goginan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3PG

Taliadau
Ticiwch y blwch priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu Siec
☐ Archeb Banc

Datganiad: Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.
Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.

Llofnod ____________________

Dyddiad ____________________

# O'r Cynulliad Elin Jones



Fe fu newyddion mawr yn y Cynulliad y mis yma, sydd ag effaith sylweddol ar fywydau pobl yma yng Ngheredigion, ac ar nifer o'r sefydliadau, a chymunedau cysylltiedig trwy gydol y sir.

Tarodd Plaid Cymru fargen yn y Cynulliad Cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi clustnodi blaenoriaethau gwariant o £279 miliwn dros y flwyddyn nesaf. Dyma'r gyllideb fwyaf i gael ei chytuno arni gan unrhyw wrthblaid yn hanes y Cynulliad. Mae hi'n gweld Plaid Cymru'n diogelu nifer o'n hymrwymiadau maniffesto ac yn cael effaith go iawn ar nifer o sefydliadau Ceredigion a phobl ein hetholaeth.

Mae ein colegau Addysg Uwch a Phellach yn hollbwysig i'n heconomi ac i addysg pobl yng Ngheredigion. Rydym wedi llwyddo i sicrhau £30m o gyllid ychwanegol i'r sector trwy Gymru, a fydd yn weledol iawn yn ein sir gyda'n dwy dref Prifysgol a Choleg Ceredigion. Yn ogystal â hyn, rydym wedi sicrhau ymrwymiad i adeiladu ar y bartneriaeth rhwng Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol er mwyn gosod sylfeini ar gyfer Ysgol Feddygol, a chreu canolfan arbenigedd milfeddygol i Geredigion.

Mae'r Celfyddydau yn hollbwysig i Geredigion, ac mewn cyfnod anodd i gyllid ein sefydliadau, rydym ni wedi llwyddo i gael £3m ychwanegol i'r sector. Mae hyn yn meddwl y bydd cynnydd o 3.5% i gyllidebau'r Llyfrgell Genedlaethol, y Cyngor Llyfrau ac i Gyngor y Celfyddydau, sy'n cyllido cymaint o sefydliadau celfyddydol ac artistiaid trwy gydol Ceredigion.

Bydd ymgyrchwyr dros ailagor y rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin yn falch iawn i glywed ein bod wedi sicrhau ymrwymiad o £300,000 ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb lawn i'w hail-agor. Fe fydd hwn yn gweld canolbarth a gorllewin Cymru wedi'u hintegreiddio'n llawn i system drafnidiaeth Cymru.

Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau £15m o fuddsoddiad i wella amseroedd diagnosis, ac i driniaeth canser a chyflyrau prin. Mae yna hefyd ymrwymiad o £20m ychwanegol i wella gwasanaethau iechyd meddwl, sydd wedi bod ar ei hôl mewn cyllid am amser hir.

Mae yna newyddion da iawn i'r Gymraeg, gyda £5m ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer Cymraeg i Oedolion ac i Asiantaeth Genedlaethol yr Iaith. Mae hyn yn gam pwysig iawn mewn ceisio sicrhau'r iaith yma.

Drwyddi draw, mae'r gyllideb hon yn un flaengar, ac yn dangos cydweithio aeddfed gyda Llywodraeth ar ei fwyaf effeithiol erioed yn hanes y Cynulliad. Edrychaf mlaen at weld effaith y newid ar hyd a lled Ceredigion.

Fues i hefyd yn cymryd rhan mewn dadl yn y Cynulliad y mis hwn dros sefydlu Senedd i'r Ifanc. Mae hi'n hollbwysig ein bod ni'n sicrhau bob cyfle i bobl ifanc gymryd rhan yn ein prosesau democrataidd. Dydw i ddim yn derbyn nad oes ganddynt ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Pob tro rydw i'n cwrdd â phobl ifanc trwy Geredigion, mae nhw'n dweud wrtha i sut mae gweithredoedd y Cynulliad yn effeithio arnyn nhw. Fe fydd sefydlu Senedd i'r ifanc yn sicrhau platfform go iawn iddynt.

# Cerddwyr Rhydypennau



Er gwaethaf cymylau du ar Hydref 19, cafodd criw Rhydypennau dywydd sych i'w taith o gwmpas pum llyn – Pen-dam (Pant rhyd yr ebolion), Rhos-goch, Blaenmelindwr, Syfydrin a Chraig y Pistyll. Roedd rhaid croesi ambell nant gyda mwy o ddŵr na'r arfer ond daeth pawb yn ôl yn ddiogel. Diolch i Rees am drefnu ac i Bethan am arwain.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r cyngor ar Nos Iau, Hydref 20 am 7.30. Roedd y cynghorydd Andrea Jones yn y gadair gan fod y Cynghorydd Jean Watson yn absennol. Croesawyd Elaine Lewis fel clerc dros dro.

Cafwyd cyflwyniad gan Osian Jones, Cynllun Mabwysiadu Llwybrau, Cyngor Sir Ceredigion ar fabwysiadu llwybrau cyhoeddus.

Siomedig iawn oedd y cyngor i glywed nad oedd y Cyngor Sir wedi gwneud dim eto ynglŷn â Phont Rhiwarthen na symud ymlaen i greu mannau pasio ar hyd yr heol C1028 o Lanyrafon.

Penderfynnwyd gofyn i'r Cyngor Sir i roi pwysau ar y Bwrdd Dŵr i wneud rhywbeth ynglŷn â'r dŵr sydd yn llifo a chreu difrod i eol Cwmbrwyno.

Fe fydd Richard Edwards yn ein cynrychioli yn y pwyllgor blynyddol mae'r Cyngor Sir yn ei gynnal er mwyn trio pwysleisio y broblem mae Pont Rhiwarthen yn greu i'r gymuned.

Daeth y pwyllgor i ben am 9.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Diolchgarwch

Ar gyfer ein Cwrdd Diolchgarwch ysgol eleni, casglwyd bwyd ar gyfer yr elusen, "Nightshelter". Cynhaliodd y plant wasanaeth Cwrdd Diolchgarwch hyfryd. Diolch i bawb a gyfrannodd fwyd tuag at yr elusen.

### Diolch i Bwyllgor Carnifal y Borth

Cyflwynwyd cyfanswm hael iawn o arian (£1,000) i'r ysgol gan Bwyllgor Carnifal y Borth. Mae'r ysgol gyfan yn ddiolchgar iawn am eich caredigrwydd, a bydd yr arian o fudd mawr i'r ysgol.


### Taith gerdded – "Countryfile Ramble"

Ar y prynhawn olaf cyn diwedd tymor, aeth yr ysgol gyfan ar daith gerdded i godi arian tuag at Plant Mewn Angen. Cerddom o'r ysgol, ar hyd y traeth hyfryd draw at y Clwb Golff pen draw'r pentref. Roedd y tywydd ar ein hochr gan ei fod yn brynhawn braf i gerdded.

### Trawsgwlad

Braf oedd gweld pawb o Gyfnod Allweddol dau yn cymryd rhan yn ras trawsgwlad cylch Aberystwyth. Roedd hi'n bleser gweld pob un gyda gwên fawr ar eu hwynebau wrth gymryd rhan ac yn annog ei gilydd ymlaen wrth redeg. Arbennig blant!





Trawsgwlad cylch Aberystwyth



Cyfrannu bwyd i'r elusen "Night shelter"





Taith gerdded Plant Mewn Angen



### Parti Calan Gaeaf

Cynhalwyd parti Calan Gaeaf ar ôl ysgol, ac roedd pawb wedi mwynhau. Nid oeddem yn gwybod bod rhai o'r plant annwyl yn gallu edrych mor ddychrynllyd a brawychus! Diolch i'r rheiny a fu'n helpu.



Parti Calan Gaeaf

# Brain duon y Borth

Mae ffotograffydd sydd newydd symud i fyw i'r Borth wedi ennill cystadleuaeth ryngwladol gyda chyfres o luniau o'r ardal. Un o'r Swisdir yw Mira Andres raddiodd ym Mhrifysgol De Cymru a bydd yn derbyn gwobr o £1,000 ac yn cael ei gwaith wedi ei arddangos yn Oriel Elysium yn Abertawe ar ôl ennill Gwobr Ryngwladol ESPY 2015. Efallai i chi weld Mira weithiau yn gweithio yn Deli Matt yn Bow Street. Hi yw yr un sydd yn rhoi cyngor ar y cawsiau!

Fe'i hysbrydolwyd i lunio y cyfansoddiad "Brain Duon y Borth" o glywed am y merched arferai gerdded llwybr yr arfordir o'r Borth i Aberystwyth i werthu penwaig a chocos. Dau ffotograffydd blaenllaw o Gymru oedd yn beirniadu - Helen Sear a Peter Finnemore, dau gynrychiolodd Gymru yn arddangosfa Biennale Venice.

Mae'r Oriel yn Barons Court 16 Stryd y Coleg, Abertawe  SA1 5AE ac ar agor Mawrth – Sadwrn 12-5

Ar 'Graig yr Wylfa' – llecyn manteisiol uchaf y Borth – bu'r menywod yn aml yn arolygu'r môr agored eang yn y gobaith y byddai eu dynion yn dychwelyd. Fe aeth bron pob un o'r dynion i'r môr er mwyn cynnal eu teuluoedd ac eto cafodd nifer fawr eu difa gan y môr. Cafodd llawer o wragedd eu gwneud yn weddw – ffaith a ddaeth a'r menywod yn nes at ei gilydd a'u gorfodi nhw i addasu i ffordd mwy hunangynhaliol o fyw; mae'r ysbryd matriarchaidd cryf yn dal yn amlwg heddiw.

Yn ôl gwefan yr oriel "Mae'r Borth wedi newid o fod yn bentref morwrol i fod yn fecca ar gyfer menywod artistig, hunangynhaliol sy'n rhannu egwyddorion ecolegol ac ysbrydol tu mewn i'r gymuned glos. Mae ymreolaeth cymunedol y Borth ac hefyd y bond cryf rhwng y cenedlaethau hen ac ifanc, sydd yn ehangu drwy gydol y cylch teulu, yn cyfuno a chynrychioli Zeitgeist eangfrydig, yn adlewyrchu eu rhyddid artistig ac ysbrydol. Mae llawer o fenywod y Borth yn mynegi eu hunain trwy gelf, yn delweddu eu perthynas agos â'r môr a'r tirwedd o gwmpas y pentref. Yn amrywio o ailgylchu broc môr i baentiadau, cerfluniau a cherddoriaeth, mae'r Brain Duon cyfoes yn dosbarthu eu celf o'r môr fel y gwnaeth eu rhagflaenwyr grymus. Maent wedi penderfynu sefydlu ffordd o fyw o fewn y pentref arfordirol ffyrnig a llwm, leoliad sydd wastad dan berygl gan lifogydd a stormydd. Gyda lefel y môr ar gynnydd mae dyfodol y Borth yn ansicr.

Mae "Brain Duon y Borth" yn gyfansoddiad ffotograffig, gyda'i wreiddiau o fewn cyd-destun morwrol. Mae'n archwilio'r tirwedd cyfredol ac yn cyfochri'r gorffennol a'r presennol i bortreadu cenhedlaeth newydd o fenywod cryf yn yr ysbryd o gymdeithas fatriarchaidd ganrifoedd yn ôl. Mae'r Brain Duon cyfoes yn dibynnu ar y môr cymaint ag y maent yn dibynnu ar ei gilydd ac mae eu mynegiant artistig yn ogystal â'u cydlyniant cymdeithasol o  flaenoriaeth naturiol.





Mae yna gatalog ar gael i'r arddangosfa – ac mae hefyd lyfr wedi ei gyhoeddi – os am fanylion cysylltwch â Mira Andres miraandres.photo@gmail.com neu d/o y golygydd.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau 27 Hydref yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Siân Jones. Mynegwyd siom fod fandaliaid wedi dryllio bwrdd picnic yn yfflon yng nghae chwarae Bryncastell yn ddiweddar. Roedd y bwrdd wedi ei gyflwyno rai blynyddoedd yn ôl i'r parc gan deulu o Fryncastell. Hysbyswyd yr Heddlu eisoes. Dywedodd y Cyng. Owain Morgan ei fod wedi rhoi sylw i'r llidiart sydd wrth y fynedfa i gae chwarae Tregerddan, a bod angen peth gwaith weldio arno eto. Mae sefyllfa'r dŵr yn parhau i beri gofid yn y cae ac wrth y ffin â'r Cartref.

Mae'r toriadau olaf ar borfa caeau chwarae Tregerddan a Bryncastell wedi eu cwblhau a diolchir i'r ymgymerwr am waith cymen, a thelir swm dyledus iddo. Diolchwyd i'r Cynghorydd Paul Hinge am ei adroddiad blynyddol a gylchredwyd yn ddiweddar yn y gymuned. Yn ei adroddiad misol dywedodd fod Ffrindiau Tregerddan wedi ysgrifennu ato yn cwyno am y ffordd yn arwain i'r Cartref a'r broblem parcio yno. Cafodd ymateb oddi wrth Gyfarwyddyd y Priffyrdd nad oedd arian ar gael ar hyn o bryd i wneud dim gwelliannau i'r ffordd/llwybrau. Mentrodd ddweud fod llygoden bach o oleuni yn torri trwodd parthed saga troeadau Dolgau/Dolau/Rhydypennau, efallai yn y flwyddyn ariannol newydd.

Trafodwyd y cais am goeden Nadolig yn yr ardal. Penderfynwyd mai y lle gorau fyddai o flaen ysgol Rhydypennau gyda'r gobaith cysylltu â thrydan o'r ysgol. Mi all gostio cannoedd o bunnoedd i osod blwch trydan pwrpasol oddi ar bolyn mewn mangre arall. Eir ati i drafod y posibiliadau gyda'r ysgol, y rhieni a'r plant sydd yn awyddus i'w gweld yn bywiogi'r gymuned. Bydd y cyngor yn barod i brynu'r goleuadau.

Mae darn o dir rhwng Maesafallen a'r ffordd fawr, i'r dde o'r fynedfa mewn cyflwr truenus gyda mieri yn gordyfu dros y pafin, gan guddio y blwch halen. Tebyg nad yw y datblygwyr diwethaf wedi ei nodi ar unrhyw weithred, a chan fod y Cyngor Sir bellach wedi mabwysiadu yr oll o'r ystâd bellach, teflir y bêl i'w cwrt hwy i weld beth fydd eu hymateb.

Penderfynwyd cyfrannu £300 tuag at arddangosfa Tân Gwyllt Clwb Pêl-droed Bow Street. Ni chymerodd y Cyng. Vernon Jones ran yn y penderfyniad. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Tachwedd am 7.30pm.

# Ysgol Rhydypennau

**Diolchgarwch**
Ar ddydd Iau y 20fed o Hydref, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Yn dilyn ein trefn arferol bellach, mentrwyd allan o neuadd yr ysgol i Gapel Noddfa'r pentref ble ymunodd nifer o drigolion y gymuned â ni. Yn ystod ein gwasanaeth cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus. Yn ystod ein gwasanaeth trefnwyd casgliad ar gyfer ein elusen eleni sef 'Heart Foundation Cymru'.

Hoffwn fel ysgol ddiolch i'r Capel, yn enwedig i'r Parchedig Richard Lewis am hwyluso'r trefniadau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch hefyd i'r Arglwydd Elystan-Morgan, ein Gŵr Gwadd eleni. A diolch hefyd i Mrs Wendy Jones a staff y gegin am luniaeth blasus y p'nawn.

**Ymweliad**
Fel rhan o raglen diweddar dan ofal yr Urdd – 'Taith Iaith ar draws y Sir' fe ddaeth Anni Llŷn (Bardd plant Cymru eleni) a Tudur Phillips (rhaglen 'Stwnsh') i arwain sesiynau Cymraeg i blant blwyddyn 5 a 6. Bu Anni yn helpu'r plant i ysgrifennu barddoniaeth tra fuodd Tudur yn dysgu'r plant sut i glocsio!

**Ffilmio**
Llongyfarchiadau i Lois Jones, Melchi Macpherson, Olivia Scarrot a Llio Tanat am gael eu dewis gan y rhaglen 'Cyw' ar S4C i ffilmio rhaglen i blant. Mi fydd y rhaglen yn cael ei darlledu fis Ebrill nesaf.

**Trawsgwlad**
Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar Ddydd Gwener 14eg o Hydref ar gaeau Penweddig. Eleni, fe aeth 57 o blant o flynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gyflawni'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf:-
Megan Hughes bl 4; Llio Tanat bl 4; Lleucu Siôn bl 5; Ella Thomas bl 5; Elen Morgan bl 6. Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion fis Ebrill nesaf. Pob Hwyl!

**Mynd am Dro**
Fe aeth y dosbarth Derbyn ar daith ar y bws yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd cyrraedd y goedwig wrth ymyl Gogerddan. Yn y goedwig, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn yn cynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

**Bingo**
Ar y 10fed o Dachwedd, trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol noson 'Bingo' yn y neuadd. Cafwyd noson gymdeithasol dda iawn gyda llwyth o wobrau da a chacennau blasus.

**Llysgenhadon Ifanc**
Er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd mae Llysgenhadon Ifanc wedi eu penodi ar draws ysgolion Ceredigion. Yn ysgol Rhydypennau penodwyd Ella Thomas o flwyddyn 5 ac fe ail-benodwyd Harri Jones blwyddyn 6. Y mae'r ddau wedi derbyn hyfforddiant gan gydlynydd 'Aml sgiliau'r' Sir, Alwyn Davies. Erbyn hyn mae'r ddau yn trefnu sesiynau cyn ysgol pob bore Llun a phob bore Iau o 8:15 ymlaen. Mae'r sesiynau yn agored i bawb.

**Clwb Cant**
Dyma ganlyniad fis Tachwedd
1af - £25 Caryn James, Dol-Helyg, Penrhyncoch.
2il - £15 Ros Williams, Caerfyrddin.
3ydd-£10 Ted Elias Jones, Pêr Awel, Capel Seion.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: *www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk @YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*


Clocsio gyda Tudur Phillips


Barddoniaeth gyda Anni Llŷn


Dosbarth Derbyn yn y goedwig



Gwasanaeth Diolchgarwch

# Ysgol Penrhyn-coch

### Taith preswyl CA2
Bu plant CA2 am dridiau ar drip i Condover yn ddiweddar. Bu'r plant yn ymestyn eu sgiliau drwy amryw o weithgareddau allanol gan gynnwys saethyddiaeth, adeiladu bygi ac abseilio. Fe wnaeth pawb fwynhau'r profiad yn fawr iawn.

### Dosbarth Derbyn
Cafodd plant y dosbarth derbyn wasanaeth bedydd hyfryd yn yr eglwys gyda'r Parchedig Lyn Dafis. Roedd pob plentyn yn gymeriad/perthynas i'r babi bach o'r tad bedydd i'r fam bedydd ac roedd gan y babi enw anferthol erbyn y diwedd! Roedd pob un yn edrych yn smart i'r achlysur hefyd!

### Dosbarth 2
Cafodd plant blwyddyn 1 a 2 y cyfle i chwarae yng ngŵyl aml sgiliau ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd hi'n fore braf ac fe ymunodd pawb i mewn yn y dawnsio 'Zumba', pêl fasged, pêl droed a tag rygbi - diolch am y cyfle!

### Trawsgwlad yr Urdd
Eleni eto daeth sawl un o blant yr adran iau i fewn yn y 10 uchaf ym mhob blwyddyn, da iawn chi!

### Clwb yr Urdd
Cafwyd dwy noson hyfryd yng nghwmni Shan James, Penbanc a Glenys Morgan, Tir-y-dail wrth iddyn nhw ddangos eu doniau ym myd addurno cacennau a gosod blodau. Roedd y plant wrth eu boddau ac rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw am ein helpu.

Dyddiadau pwysig
**Ffair Nadolig/'Den Dolig'**
Ffair tra gwahanol eleni oherwydd mae pob dosbarth yn cynllunio a chreu busnesau eu hunain ac yna byddan nhw'n gyfrifol am greu eu nwyddau a'u gwerthu ac wrth gwrs gwneud elw gobeithio!
Dewch i gefnogi ar Dachwedd 29ain 5-7y.h yn neuadd yr ysgol

**Sioe Nadolig**
Rhagfyr 8fed
**Sioe prynhawn am 1:30**
**Sioe nos am 6:00**
**Yn Neuadd y Penrhyn**







owain bebb a'i gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*
Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa,
Aberystwyth SY23 1AS
Caernarfon 01286 677 624
Pwllheli 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
hedyddcunningham@live.co.uk

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu'n brysur yn lliwio – dyma'r enwau: Gwawr Morgan, Bow Street; Nel Davies, Caernarfon; Elin Pierce Williams, Bow Street; Siân Mari Evans, Capel Dewi; Cari Jenkins, Penrhyn-coch; Dylan Rhys Herron, Bow Street; Iestyn Bryn Roberts, Penrhyn-coch; Megan Eluned Evans, Penrhyn-coch.

Dy lun di, Nel, ddaeth o'r het yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr! Daliwch ati, bawb. Mae'n bleser derbyn eich lluniau pob mis.

Mae'n ganol Tachwedd bellach, ac un digwydd sy'n cael sylw mawr yr adeg hon o'r flwyddyn yw Diwrnod Plant mewn Angen. Rwy'n siŵr fod pob un o ddarllenwyr *Y Tincer* yn gyfarwydd â'r arth fach gyfeillgar sydd yn y llun y mis hwn. Wrth gwrs, Pydsi yw hwn! Mae dydd Gwener, **18 Tachwedd**, yn ddiwrnod Plant mewn Angen, a bydd Pydsi yn annog pob un ohonon ni i gefnogi'r apêl ac i dwrio am bunt neu ddwy. Mae'n ddiwrnod arbennig i ni gofio am blant, gan gynnwys rhai yn ardal *Y Tincer*, sydd angen ein help ni. Falle y bydd rhai ohonoch yn cynnal digwyddiad yn eich pentre i godi arian, neu'n cael mynd i'r ysgol mewn gwisg ffansi. Mae apêl Plant mewn Angen wedi codi cannoedd o filiynau o bunoedd ers iddi ddechrau ym 1980. Ganwyd Pydsi ym 1985, felly mae o'n 31 mlwydd oed eleni!

Ac yna ar **20 Tachwedd**, mae'n Ddiwrnod y Plant, wedi'i drefnu gan y Cenhedloedd Unedig, i gofio am rai fel chi ledled y byd sydd angen ein help, a'n hannog ni i geisio gwneud ein byd yn lle gwell a mwy diogel i blant fyw ynddo.

Anfonwch eich llun o Pydsi at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn .Rhagfyr 1af: Pob hwyl ar liwio!



Nel



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru

CYMRAEG

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

Rhif 393 | TACHWEDD 2016